monmouthshire
sir fynwy

# Asesiad Perfformiad Panel (APP) Cyngor Sir Fynwy

Chwefror 2026



## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir Fynwy Asesiad Perfformiad Panel (APP) drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod a ddaeth i ben ar 27 Chwefror 2026 gyda chyflwyniad o adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau (sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn).

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg yr APP yn cynnig fframwaith cyffredinol: nid yw'r trywydd ymholi wedi'i bennu'n bendant, ond mae'n rhoi arweiniad i'r Panel ar y meysydd y gellid eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor ond yn ddigonol i alluogi'r Panel i ddod i gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trylwyr a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol, archwiliadau allanol ac adolygiadau rheoleiddio.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, bu i'r Cyngor fesur cwmpas eu gofynion er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynnig y gwerth mwyaf ac yn cael yr effaith fwyaf posibl ar y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg cryno o gasgliadau'r Panel a adroddir yn ôl eithriadau.

## 2.0 Tîm Cymheiriaid

2.1 Comisiynwyd y Cymheiriaid canlynol gan CLlLC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o Gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad.

- Cadeirydd Annibynnol: Beverley (Bev) Smith, Cyn Brif Weithredwr Mansfield, Swydd Nottingham a Gogledd Orllewin Swydd Caerlŷr, cyn Gadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a Chadeirydd presennol Comisiwn Ffiniau Lleol Lloegr
- Uwch Aelod y Cymheiriaid: Y Cyng. Darren Price, Cynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd a chyn Arweinydd Cyngor Sir Gâr
- Uwch Swyddog Llywodraeth Leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd: Louise Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cymar o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach: Chris Naylor, Ymgynghorydd, Rheolwr Gyfarwyddwr a chyn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Barking a Dagenham Llundain

2.2 Cefnogwyd y Panel gan, Cerith Thomas, Uwch Swyddog Polisi (Gwelliant – Gwasanaethau Democrataidd) a Sarah Evans, Uwch Swyddog Cefnogi (Gwelliant), y ddwy o Dîm Gwelliant CLlLC.

## 3. Cwmpas a Dull

3.1 Mae gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

- Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- Gweithredu mesurau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y tri maes canlynol y byddai barn cymheiriaid yn eu cylch yn werthfawr fel rhan o asesiad y Panel:

- **Maes Canolbwynt lleol 1** - Pa mor dda mae'r Cyngor yn alinio ar draws cyfarwyddiaethau er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn y ffordd orau?
- **Maes Canolbwynt lleol 2** - Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu'r dulliau ataliol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd gan y Cyngor yn dod i'r amlwg o ran gweithio gyda'i gymunedau, busnesau lleol a budd-ddeiliaid eraill (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned).
- **Maes Canolbwynt lleol 3** - Pa mor dda mae'r Cyngor yn gallu dangos canlyniadau bwriedig ac effaith sy'n dod i'r amlwg o'i Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol, pa mor dda mae'n eu rhannu â Chynghorwyr, preswylwyr a budd-ddeiliaid eraill, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a busnesau lleol.

3.3 Er mwyn paratoi ar gyfer yr asesiad ar y safle, cynhaliodd y Panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor yn gyntaf. Cymerodd y Cymheiriaid hefyd ran mewn cyfarfodydd cychwynnol ar-lein.

3.4 Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau arolygon staff a phreswylwyr diweddar, a oedd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ddiwylliant y sefydliad, ymgysylltiad staff a chanfyddiad y cyhoedd. Roedd y canfyddiadau cadarnhaol hyn o'r arolygon yn cynnig sylfaen dystiolaeth ychwanegol a oedd yn ategu'r adolygiad o ddogfennau a'r farn a gasglwyd trwy gyfweliadau a grwpiau ffocws gan gryfhau triongli asesiad y Panel.

3.5 Treuliodd y Panel dros tua 240 o oriau yn ystod y cam o'r adolygiad a gynhaliwyd ar y safle, a hynny'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor
- Prif Weithredwr
- Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Cabinet ar y cyd (sesiynau Agoriadol a Chloi)
- Y Cabinet – Grŵp Ffocws
- Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Cynllunio a Datblygu Economaidd
- Arweinydd yr Wrthblaid
- Arweinydd y Grŵp Annibynnol Gwyrdd
- Arweinydd y Grŵp Annibynnol

- Aelodau Etholedig - anweithredol – Grŵp Ffocws
- Cadeiryddion Craffu – Grŵp Ffocws
- Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau
- Tîm Arwain Strategol – Grŵp Ffocws
- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol - Adnoddau (Swyddog Adran 151)
- Prif Swyddog - Pobl, Perfformiad a Phartneriaeth
- Prif Swyddog - Lle a Lles Cymunedol
- Prif Swyddog - Y Gyfraith a Llywodraethu (Swyddog Monitro)
- Prif Swyddog Isadeiledd
- Cyfarwyddwr Strategol - Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi
- Cyfarwyddwr Strategol - Gofal Cymdeithasol a Diogelu
- Prif Archwilydd Mewnol
- Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Pennaeth Newid Strategol, Partneriaethau a Chaffael
- Rheolwr Democratiaeth Leol
- Penaethiaid Gwasanaeth - Grŵp Ffocws Staff
- Rheolwyr Canol - Grŵp Ffocws Staff
- Grŵp Ffocws - Staff Rheng Flaen/Gweithredol
- Cynrychiolwyr Cyngor yr Ifanc - Grŵp Ffocws
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Arweinydd Awdurdod Lleol cyfagos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Arweinydd Awdurdod Lleol cyfagos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Arweinydd Awdurdod Lleol cyfagos – Cyngor Dinas Casnewydd
- Prif Weithredwr Awdurdodau Lleol cyfagos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent
- Prif Weithredwr Awdurdod Lleol cyfagos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaeth Strategol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Llywydd y Gyfadran Iechyd y Cyhoedd
- Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ffocws
- Undebau Llafur – Grŵp Ffocws
- Y Gymuned Fusnes – Grŵp Ffocws

- Y Sector Gwirfoddol – Grŵp Ffocws
- Pobl Hŷn - Grŵp Ffocws Budd-ddeiliaid
- Ymweliad â Neuadd y Dref y Fenni – Canolbwynt Cymunedol

## 4. Casgliad Cyffredinol

4.1 Daeth y Panel i'r casgliad bod Sir Fynwy yn Gyngor uchelgeisiol wedi'i redeg yn dda, â chymunedau wrth ei galon a chyrhaeddiad sy'n mynd tu hwnt i ffiniau.

4.2 Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar broses asesu gynhwysfawr a thrionglog, gan dynnu ar sawl ffynhonnell dystiolaeth. Bu'r Panel yn adolygu dogfennau helaeth a ddarparwyd gan y Cyngor, gan gynnwys cynlluniau strategol, data perfformiad, gwybodaeth ariannol a chanfyddiadau archwiliadau allanol, arolygon, ynghyd â mewnwelediadau a gasglwyd trwy'r rhaglen eang o gyfweliadau, grwpiau ffocws a sesiynau ymgysylltu â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol. Roedd hyn yn cynnwys aelodau etholedig, uwch swyddogion, staff rheng flaen, partneriaid, cynrychiolwyr cymunedol, busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Roedd ehangder a chysondeb adborth ar draws y grwpiau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer beirniadaeth y Panel ac roedd yn cynnig sicrwydd cryf o ran dibynadwyedd a dilysrwydd y canfyddiadau.

## 5. Cyd-destun Lleol **(Ffynhonnell: Dogfen Gwmpasu APP)**

### Trosolwg o Le

5.1 Mae Sir Fynwy yn ne-ddwyrain Cymru, mewn lleoliad strategol rhwng canolfannau mawr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cwmpasu tua 880 km², a dim ond 3% a gaiff ei gyfrif fel tir a adeiladwyd arno. Mae'n ffinio nifer o awdurdodau yng Nghymru a Lloegr ac mae'n cynnwys pedwar prif anheddiad - Y Fenni, Mynwy, Cil-y-coed a Chas-gwent - ynghyd â threfi Brynbuga a Magwyr gyda Gwndy. Mae'r aneddiadau hyn yn drefi marchnad hanesyddol â chysylltiadau cryf â'u hardaloedd gwledig cyfagos.

5.2 Poblogaeth y sir yw 92,961, ac mae'r proffil oedran yn hŷn na chyfartaledd Cymru. Mae tua 26% o breswylwyr dros 65 oed ac mae cyfran y grwpiau oedran hŷn yn tyfu'n gynt nag ar draws Cymru. Mae her ddemograffig cadw a denu pobl iau yn fater allweddol a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

5.3 Yn economaidd, mae Sir Fynwy yn elwa o gysylltiadau cludiant cryf ac mae'n agos at Gaerdydd, Bryste a Chanolbarth Lloegr. Yn Sir Fynwy mae un o'r economïau mwyaf cystadleuol yng Nghymru, ynghyd â gweithlu cymwys iawn, lefelau gweithgarwch economaidd cryf a'r gyfradd uchaf o fentrau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae lle datblygedig cyfyngedig ar gyfer gweithgarwch economaidd yn gyfyngiad cynyddol.

5.4 Mae fforddiadwyedd tai yn her leol sylweddol, ac mae prisiau tai ymhlith yr uchaf yng Nghymru - 8.5 gwaith incymau lleol ar gyfartaledd. Mae costau uchel yn sbarduno allfudo, ac mae mwy na 3,800 ar y gofrestr tai, gan gynnwys 2,000 y nodwyd bod angen tai fforddiadwy arnynt.

### Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sefydliadol

### Cynrychiolaeth Wleidyddol

5.5 Mae gan Sir Fynwy 46 o Gynghorwyr yn cynrychioli 39 rhanbarth etholiadol. Y gynrychiolaeth wleidyddol yw:

- Llafur: 21
- Ceidwadwyr: 19
- Grŵp Annibynnol: 4
- Grŵp Annibynnol Gwyrdd: 2 (un Gwyrdd, un annibynnol wedi'i alinio)

5.6 Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai 2022, nid oedd gan yr un blaid wleidyddol reolaeth gyffredinol o'r Cyngor. Y blaid Lafur oedd y blaid fwyaf, a ffurfiodd Gabinet newydd heb fwyafrif cyffredinol. Yna ffurfiwyd cytundeb clymblaid rhwng y grŵp Llafur a Grŵp Gwyrdd/Annibynnol oedd newydd ei ffurfio. Mae hyn yn golygu y bydd rhai penderfyniadau yn y Cyngor llawn yn cael eu gwneud gan bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Mae proses galw i mewn y pwyllgorau craffu yn sicrhau gwiriadau a chydbwysedd yn y broses ddemocrataidd ac mae wedi'i defnyddio nifer o weithiau yn ystod y tymor etholiadol hwn.

5.7 Mae'r Cyngor yn defnyddio model llywodraethu Arweinydd a Chabinet (Gweithredol). Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor bob blwyddyn. Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, a'r Dirprwy Arweinydd yw'r Cynghorydd Paul Griffiths. Mae'r Arweinydd yn penderfynu ar faint ac aelodaeth y Cabinet h.y. rôl aelodau unigol y Cabinet a'r trefniadau ar gyfer cyflawni a dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol. Mae'r Cabinet yn cynnwys 8 aelod etholedig, 7 Cynghorydd o'r Grŵp Llafur ac 1 Cynghorydd o'r Grŵp Gwyrdd Annibynnol. Mae gan bob un gyfrifoldeb arweiniol dros faes o waith y Cyngor, gan gynnwys yr Arweinydd. Aelodau'r Cabinet a'u portffolios yw:

- Y Cyng. Mary Ann Brocklesby – Arweinydd y Cyngor
- Y Cyng. Paul Griffiths – Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Cynllunio a Datblygu Economaidd
- Y Cyng. Ben Callard – Aelod Cabinet Adnoddau
- Y Cyng. Laura Wright – Aelod Cabinet Addysg
- Y Cyng. Ian Chandler – Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch
- Y Cyng. Catrin Maby – Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd
- Y Cyng. Angela Sandles – Aelod Cabinet Cydraddoldeb ac Ymgysylltu
- Y Cyng. Sara Burch – Aelod Cabinet Materion Gwledig, Tai a Thwristiaeth

5.8 Mae'r Cabinet wedi buddsoddi llawer iawn o amser i ddatblygu eu tîm eu hunain. Cynhelir cyfarfodydd busnes y Cabinet anffurfiol bob wythnos, er mwyn rhannu pethau'n agored a chynnar a chynhelir sesiynau briffio gyda'r Tîm Arwain Strategol bob wythnos hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod sgyrsiau uniongyrchol a phriodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel rhan o fodel arweinyddiaeth wleidyddol rhagweithiol sy'n ymgysylltu.

5.9 Mae gan y Cyngor bedwar prif bwyllgor craffu:

- Pwyllgor Craffu Pobl – Cadeirydd, Y Cyng. Jackie Strong
- Pwyllgor Craffu Lle – Cadeirydd, Y Cyng. Jane Lucas
- Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg – Cadeirydd, Y Cyng. Alistair Neill
- Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus – Cadeirydd, Y Cyng. Armand Watts

5.10 Ar adeg yr asesiad, roedd gwybodaeth fanwl am Aelodau Cabinet a'u meysydd cyfrifoldeb ar gael ar wefan y Cyngor.

5.11 Y Cyngor sy'n penderfynu ar fframwaith polisi a chyllideb yr Awdurdod a swyddogaethau cyfansoddiadol eraill. O dan y Cabinet ac ar lefel y Cyngor, mae nifer o bwyllgorau a phaneli sy'n cyflawni swyddogaethau craffu, goruchwylio statudol a rheoleiddio amrywiol.

**Tîm Arwain Strategol Swyddogion**

5.12 Mae'r Cabinet ac aelodau etholedig yn cael eu cefnogi gan y Tîm Arwain Strategol, sy'n cynnwys 8 swyddog ac sy'n cael ei arwain gan y Prif Weithredwr, Paul Mathews. Y Dirprwy Brif Weithredwr yw Peter Davies. At ddibenion rheoli, mae gweithrediadau'r Cyngor wedi'u trefnu fesul maes gwasanaeth a chaiff pob un ei arwain gan Gyfarwyddwr Strategol neu Brif Swyddog, sy'n atebol i'r Prif Weithredwr.

- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol – Adnoddau, Peter Davies
- Cyfarwyddwr Strategol – Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd, Jane Rodgers
- Cyfarwyddwr Strategol – Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi, Will McLean
- Prif Swyddog – Y Gyfraith a Llywodraethu, James Williams
- Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, Matthew Gatehouse
- Prif Swyddog – Isadeiledd, Debra Hill-Howells
- Prif Swyddog – Lle a Lles Cymunedol, Craig O'Connor

5.13 Yn dilyn ymadawiad y Prif Swyddog Cymunedau a Lle ym mis Medi 2024, penderfynwyd cyflwyno strwythur arwain swyddogion dros dro i sicrhau parhad wrth roi amser i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr fyfyrio ar y ffurfweddiad gorau wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn cyd-daro ag absenoldeb meddygol tymor byr y Prif Weithredwr ac ymadawiad dilynol y Prif Swyddog Cwsmeriaid, Diwylliant a Lles ym mis Mawrth 2025.

5.14 Ym mis Mehefin 2025, cyflwynodd y Prif Weithredwr strwythur sefydliadol a chynllun Tîm Arwain Strategol parhaol newydd. Y nod yw gwella gallu'r sefydliad i weithredu a darparu trwy gynllun clir, parhaol sy'n alinio atebolrwydd a chyfrifoldeb mewn portffolios cyfarwyddiaeth cytbwys sy'n addas ar gyfer cyfleoedd datblygu swyddogion ar draws y Cyngor, heb beryglu darpariaeth bresennol. Mae pob swydd yn y strwythur wedi'u llenwi bellach.

5.15 Ar adeg yr asesiad, roedd gwybodaeth fanwl am strwythur sefydliadol y Cyngor, gan gynnwys trefniadau'r Cabinet a'r uwch dîm arweinyddiaeth, ar gael ar wefan y Cyngor.

**Gweithlu**

5.16 Mae'r Cyngor yn cyflogi mwy na 4,100 o unigolion (2,895 cyfwerth â llawn amser), ac mae costau cyflogau yn ffurfio bron i hanner y gyllideb refeniw. Pobl yw ased pwysicaf y Cyngor. Mae diwylliant sefydliadol iach ac effeithiol yn hanfodol er mwyn iddo lwyddo i ddarparu ei strategaethau a chyflawni ei bwrpas.

5.17 Cafodd y Strategaeth Pobl ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai 2024 ar ôl ymgysylltu â'r gweithlu am yr hyn sydd ei angen arnynt i'w helpu i lwyddo yn y gweithlu. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod lle mae'r Cyngor am fod a'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu wrth recriwtio staff newydd, cadw staff presennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd canlyniadau'r arolwg staff yn dangos lefelau boddhad ac ymgysylltiad uchel. Dywedodd 82% o gydweithwyr y byddent yn argymell y Cyngor fel cyflogwr wrth ffrindiau a theulu a dywedodd 89% o bobl eu bod yn deall pwrpas yr Awdurdod a'u cyfraniad tuag ato.

5.18 Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag undebau llafur. Mae Grŵp Ymgynghorol ar y Cyd yn chwarae rôl allweddol wrth gynnwys yr undebau ym materion y gweithlu a materion ehangach. Mae'r berthynas hon yn golygu bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i gyflawni dyheadau'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

## 6. Cryfderau a Meysydd Arloesi

6.1 Mae Cyngor Sir Fynwy yn dangos arweinyddiaeth gref, weladwy gydag angerdd clir dros fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau i gymunedau. Ystyrir bod y Cyngor yn uchelgeisiol, gan edrych yn gyson y tu hwnt i'w ffiniau i sicrhau cyfleoedd ehangach i breswylwyr a busnesau. Mae wedi datblygu partneriaethau strategol sefydledig a gaiff eu cydnabod yn rhanbarthol a chenedlaethol am eu heffeithiolrwydd a'u huchelgais ar y cyd. Mae aelodau etholedig yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad a all gryfhau darpariaeth ymhellach wrth eu defnyddio'n llawn trwy rolau craffu a gweithredol. Mae cymunedau'r sir yn dangos ymdeimlad cryf o annibyniaeth a pharodrwydd i weithio gyda'r Cyngor, sy'n cynnig cyfle am ragor o gydweithio. Ystyrir bod staff yn ffyddlon, ymroddedig ac yn rhan annatod o ddiwylliant a model darparu'r Cyngor. Bu'r staff yn myfyrio ar y lefel uchel o rymuso maen nhw'n ei brofi, gan ddweud *"Does dim rhaid i mi ffitio mewn bocs - rwy'n gallu bod yn wahanol"* ac *"rydym yn cyflogi oedolion yma!"*, sy'n adlewyrchu diwylliant sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, aeddfedrwydd ac ymreolaeth.

6.2 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth ddofn o'i gymunedau ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'n dilyn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag ymrwymiad cryf i atal ac ymyrraeth gynnar, wedi'u halinio â phartneriaid rhanbarthol. Mae gan Sir Fynwy'r sylfeini a'r ethos sydd eu hangen i ymateb i heriau'r dyfodol a newid cyfeiriad yn sefydliadol fel bo'r angen.

6.3 Staff yw un o asedau mwyaf y Cyngor ac maen nhw'n dangos ffyddlondeb a theimlad cryf o hunaniaeth sefydliadol. Roedd staff yn mynegi ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn sefydliadol yn gyson, a dywedodd un cydweithiwr *"rydym yn rhan o rywbeth arbennig iawn."* Amlygodd staff eraill bwysigrwydd gwerthoedd, gan ddweud *"mae bod â charedigrwydd mewn gwerthoedd yn rhywbeth prin"* a phwysleisio bod yr ethos hwn yn ffurfio sut mae'r sefydliad yn gweithio gyda chymunedau.

6.4 Mae'r Cyngor hefyd yn dangos ymrwymiad clir i gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â'i gymunedau.

## 7. Heriau Lleol a Chenedlaethol

### 7.1 Trosolwg Ariannol – Crynodeb

7.1 Ar ddiwedd 2024/25, roedd gan Gyngor Sir Fynwy warged refeniw bach ddiwedd blwyddyn, a gefnogwyd yn rhannol gan gyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa gadarnhaol hon yn adlewyrchu canolbwynt parhaus y Cyngor ar reolaeth ariannol ofalus yn ystod cyfnod heriol i lywodraeth leol.

7.1.2 Fel nifer o Gynghorau ar draws Cymru, mae Sir Fynwy yn parhau i wynebu pwysau mewn meysydd gwasanaeth allweddol fel Gofal Cymdeithasol, ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Gwastraff, Cludiant a Digartrefedd. Mae cyllidebau ysgol, yn benodol, dan straen, ac mae diffygion cyffredinol yn cynyddu. Fodd bynnag, mae ymrwymiad cryf a rennir ar draws y Cyngor ac ysgolion i fynd i'r afael a'r pwysau hyn a rhoi cynlluniau ar waith sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

7.1.3 Er nad oedd arbedion yn 2024/25 wedi'u cyflawni ym mhob maes, mae cynnydd pwysig wedi'i wneud trwy well reolyddion ariannol, cynnydd o ran incwm allanol a defnydd gofalus o gyfalafu lle bo'n briodol. Mae cyllideb 2025/26 wedi'i gosod ar sylfaen gytbwys, ac mae monitro yn ystod y flwyddyn yn dangos arwyddion anogol o sefydlogrwydd.

7.1.4 Wrth edrych ymlaen, mae cyllideb ddrafft 2026/27 yn cynnig buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwasanaethau hanfodol ochr yn ochr â chynllunio cyfrifol o ran treth y Cyngor. Mae bwlch ariannu o hyd, ond mae gan y Cyngor ddull clir i fynd i'r afael â hyn, fel rhan o'i gynllun ariannol tymor canolig parhaus.

7.1.5 Mae'r rhagolwg tymor canolig yn dal i fod yn heriol, gyda bylchau cyllidebol wedi'u rhagweld tan 2029/30. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cryfhau ei gynllunio hirdymor, ac mae Archwilio Cymru wedi cydnabod y cyfeiriad cadarnhaol. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes i gyflymu cynlluniau gwella, mireinio modelu ariannol a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael.

7.1.6 Mae cronfeydd wrth gefn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n risg hysbys. Felly mae'r Cyngor yn dilyn dull rhagweithiol i gryfhau gwytnwch ariannol lle bynnag bo'n bosibl, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ar draws y sefydliad i reoli adnoddau'n dda.

7.1.7 Yn gyffredinol, er bod heriau sylweddol o hyd, mae'r Cyngor wedi dangos penderfyniad go iawn wrth sefydlogi ei sefyllfa ariannol ac mae'n cymryd camau pwrpasol i sicrhau bod gwasanaethau yn gallu parhau i ddiwallu anghenion y gymuned mewn ffordd gynaliadwy.

7.1.8 Yn 2024, amlygodd Archwilio Cymru fod cynllunio hirdymor wedi gwella ond fod diffyg datrysiadau wedi'u nodi er mwyn cau'r bwlch ariannu. Mae argymhellion yn canolbwyntio ar gyflymu'r Cynllun Newid a Gwella (F-POP), cryfhau modelu ac adrodd ar effaith yn fwy clir.

### 7.2 Perfformiad Ariannol – Yn erbyn ei Gyllideb 2024/25

7.2.1 Fe wnaeth y Cyngor ragori ar gyllideb refeniw 2024/25 o ychydig, gan gyflawni gwarged gros o £1.239 miliwn a gwarged terfynol o £497,000 ar ôl symudiadau'r cronfeydd wrth gefn, wedi'i gefnogi'n bennaf gan grant untro o £1.19 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Er y sefyllfa derfynol gadarnhaol hon, mae pwysau strwythurol sylweddol yn parhau ar draws Gofal Cymdeithasol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Gwastraff, Cludiant Teithwyr a Digartrefedd, gyda gorwariant gwasanaethau cyfun o £4.6 miliwn. Mae cyllid ysgolion yn parhau i ddirywio, gyda chronfeydd wrth gefn yn symud i ddiffyg o £4.09 miliwn a 15 ysgol mewn diffyg, gan adlewyrchu heriau cyllidebol strwythurol parhaus.

7.2.2 Roedd yr arbedion a gyflawnwyd yn dal i fod yn is na'r targed, gydag 81.6% o'r gofyniad £10.94 miliwn wedi'i gyflawni, gan barhau â phatrwm o gyflawniad rhannol sy'n digwydd ers sawl blwyddyn. Roedd y sefyllfa hon wedi'i chlustogi gan £3.68 miliwn o gostau cymwys wedi'u hariannu trwy gyfalafu, swyddi gwag ac incwm allanol uwch.

7.2.3 Ar gyfer 2025/26, gosododd y Cyngor gyllideb gytbwys yn dilyn cynnydd o £5.1 miliwn mewn cyllid craidd, wedi'i gefnogi gan gyllid gwaelodol o 3.8%. Mae monitro canol blwyddyn yn dangos sefyllfa sy'n gwella, gan symud o orwariant a ragwelwyd i danwariant bach o £29,000, wedi'i sbarduno'n bennaf gan gynyddu cyllid grant ym maes Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae risgiau sylweddol yn parhau mewn gwasanaethau cost uchel a gaiff eu harwain gan alw, a rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn gwaethygu i ddiffyg o £7.06 miliwn, gydag 18 o ysgolion mewn diffyg.

7.2.4 Mae darpariaeth arbedion a ragwelir yn 2025/26 yn gryfach ar 90.4%, er bod diffygion yn parhau ym maes Gofal Cymdeithasol ac Isadeiledd. Mae pwysau sy'n benodol i wasanaethau yn parhau ar draws y Blynyddoedd Cynnar, cludiant ysgol, darpariaeth digartrefedd a Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant, gan adlewyrchu anwadalrwydd galw.

7.2.5 Yn gyffredinol, er bod rheolaeth ariannol tymor byr wedi gwella, mae’r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol gwaelodol sylweddol sy’n gofyn am gynllunio parhaus ar gyfer adferiad a rheolaeth ariannol mwy hirdymor cryfach.

### 7.3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

7.3.1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi cynllun ariannol pedair blynedd dreigl, wedi’i gynllunio i ymateb i bwysau gwasanaeth cynyddol, amodau economaidd cenedlaethol ac ansicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol. Mae’r diweddariad mwyaf diweddar yn rhagweld diffyg cyllidebol o £11.5 miliwn yn 2026/27, gan gynyddu i £37.4 miliwn cronnus erbyn 2029/30, er gwaethaf gwelliannau o amcanestyniadau blaenorol.

7.3.2 Mae’r bylchau hyn wedi’u sbarduno gan chwyddiant cynyddol sy’n ymwneud â thâl ac nad yw’n ymwneud â thal, pwysau a gaiff ei arwain gan alw ym maes Gofal Cymdeithasol, a chynnydd ailadroddus o ran cost gwasanaeth. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod ei lefel isel o gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio yn cyfyngu ar wytnwch ariannol a hyblygrwydd wrth reoli anwadalrwydd. Fodd bynnag, mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a strategaethau cyllideb dilynol wedi caniatáu sefydlu cyllideb waelodol wrth gefn £1 miliwn er mwyn caniatáu lliniaru rhannol yn erbyn risgiau ariannol a chyllidebol, ynghyd â rhagori ar berfformiad cyllidebau diweddar, gan ganiatáu ar gyfer ail-lenwi rhai cronfeydd wrth gefn mewn ffordd syml ac wedi’i thargedu.

### 7.4 Trosolwg Ariannol – Casgliadau

7.4.1 Mae rheolaeth ariannol tymor byr y Cyngor wedi sefydlogi, gyda rheolaeth well yn ystod y flwyddyn a gwarged yn 2024/25, ond mae’r sefyllfa hon wedi’i chefnogi’n sylweddol gan gyllid untro ac nid yw’n mynd i’r afael â phwysau strwythurol gwaelodol ar draws Gofal Cymdeithasol, ADY, Gwastraff, Cludiant Teithwyr a Digartrefedd.

7.4.2 Mae darparu arbedion yn gwella, gan gynyddu o 81.6% yn 2024/25 i 90.4% amcanol yn 2025/26, ond mae tan-ddarpariaeth parhaus yn parhau i ehangu bylchau ariannol tymor canolig. Mae cyllid ysgolion yn dal i fod yn risg fawr sy’n cynyddu, a rhagwelir y bydd diffygion yn cyrraedd £7.06 miliwn yn 2025/26 a disgwylir i bron i hanner yr ysgolion fod mewn diffyg. Mae cynllunio ar gyfer adferiad ysgolion a chynnydd o £1 miliwn mewn buddsoddiad y tu hwnt i gynnydd sy’n gysylltiedig â thâl yn yr ysgol yn 25/26 a 26/27 wedi caniatáu lleihau cyflymder cynnydd o ran diffygion wrth i gynlluniau adfer ddod i rym.

7.4.3 Mae cyllideb ddrafft 2026/27 yn adlewyrchu pwysau gwasanaeth mawr a rhagdybiaethau realistig yn briodol ond mae’n cadw bwlch ariannu y mae’n rhaid ei gau cyn cael cymeradwyaeth derfynol. Mae rhagolygon tymor canolig yn dangos diffyg cronnus o £37.4 miliwn erbyn 2029/30, sy’n dangos yr angen am drawsnewid mwy cyflym, rheoli galw ac ail-ddylunio gwasanaethau.

7.4.4 Mae lefelau cronfeydd wrth gefn isel iawn y Cyngor yn cyfyngu ar wytnwch ariannol, gan gynyddu pa mor agored i risg yw’r Cyngor. Mae Archwilio Cymru yn cydnabod bwriad strategol gwell ond mae’n pwysleisio’r angen am weithredu’r strategaeth ariannol yn gyflymach, modelu cryfach ac adrodd cliriach ar effaith penderfyniadau ariannol.

7.4.5 Yn gyffredinol, er bod pwysau tymor byr yn cael ei reoli, mae’r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y tymor canolig i’r tymor hir sy’n gofyn am symud o gynllunio i ddarparu er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol cynaliadwy.

## 8.0 Trosolwg o'r Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn amlinellu tri maes canolbwynt lleol a nodwyd gan y Cyngor ar gyfer yr asesiad, ynghyd â chanfyddiadau, arsylwadau a mewnwelediadau'r Panel.

### 8.1 Maes Canolbwynt lleol 1 – Pa mor dda mae'r Cyngor yn alinio ar draws cyfarwyddiaethau er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn y ffordd orau?

**Alinio ar draws Cyfarwyddiaethau a Chydweithio**

8.1.1 Mae Cyngor Sir Fynwy yn dangos ethos sefydliadol cryf o rwydweithio, cydweithio ac atebolrwydd a rennir, wedi'i gefnogi gan strwythurau sy'n hybu gweithio ar draws cyfarwyddiaethau. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu mewn adborth gan staff a chlywsom *"mae ein rhwydwaith yn gryf - does dim ots lle ydw i yn y sefydliad."* Mae hyn yn atgyfnerthu barn y Panel fod cydweithio mewnol yn gryfder a'i fod yn galluogi arfer mwy cydgysylltiedig. Mae gan y Cyngor nifer o enghreifftiau lle mae aliniad yn gweithio'n effeithiol, yn syniadol ac yn ymarferol - yn enwedig o ran Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi - gan helpu i sbarduno arloesedd a chynllunio strategol cydlynol. Mae aliniadau gwasanaeth newydd yn gwella gwelededd grwpiau diamddiffyn a gwella synergedd ar draws gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

8.1.2 Mae'r sefydliad yn osgoi maglau gweithio ar wahân, gyda ffyrdd newydd o weithio yn galluogi mwy o rymuso staff, *"rydym yn cyflogi oedolion yma!"* a dulliau gwell sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Amlygir adleoli gwasanaethau i gwsmeriaid fel arwydd diwylliannol cadarnhaol, gan roi cwsmeriaid "wrth wraidd y sefydliad." Mae portffolios thematig y Cabinet yn atgyfnerthu cydlyniad a chanolbwynt strategol cyfun ymhellach.

**Gwerthoedd, Gweithlu a Galluogwyr Darparu**

8.1.3 Mae gwerthoedd y Cyngor yn ategu a chefnogi ei fodel darparu yn fawr, ac mae fframwaith F-POP yn gweithredu fel system uno ar gyfer gweithio cydlynol ar draws y sefydliad. Mae integreiddio gyda chanolbwyntiau cymunedol yn darparu cyswllt hanfodol â chymunedau lleol, gan wella gwelededd a chysylltiadau sy'n cefnogi darpariaeth.

8.1.4 Mae'r gweithlu yn cael ei gydnabod fel galluogydd critigol ar gyfer blaenoriaethau sefydliadol, ac mae'r Strategaeth Pobl yn darparu platfform clir ar gyfer cryfhau capasiti. Bydd gwaith presennol ar nodi bylchau o ran sgiliau yn helpu i ffurfio gallu'r gweithlu yn y dyfodol a sicrhau bod y sefydliad yn dal i fod yn wydn ac addasol. Clywsom sylw "*mae bod â charedigrwydd mewn gwerthoedd yn rhywbeth prin*." Mae'r Panel yn pwysleisio y bydd mynd i'r afael â heriau'r gweithlu nawr yn:

- cadw gwybodaeth gritigol,
- gostwng pwyntiau methiant sengl,
- cefnogi arloesedd a thwf sgiliau, ac
- amrywio arweinyddiaeth er mwyn cynnal gwytnwch yn y dyfodol.

### 8.2 Maes Canolbwynt lleol 2 – Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu'r dulliau ataliol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd gan y Cyngor yn dod i'r amlwg o ran gweithio gyda'i gymunedau, busnesau lleol a budd-ddeiliaid eraill (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned).

**Cynnwys Atal ar draws y sefydliad**

8.2.1 Mae gan Gyngor Sir Fynwy fwriad strategol clir a chydlynol ar gyfer ei ddyheadau ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i seilio mewn aliniad rhanbarthol a pherthnasedd lleol cryf. Roedd dull y Cyngor sy'n cael ei sbarduno gan werthoedd hefyd yn amlwg mewn safbwyntiau staff, gyda sylwadau fel *"rydym yn gallu dangos caredigrwydd i'n cymunedau,"* gan amlygu sut mae'r ethos atal yn trosi yn arfer o ddydd i ddydd.
Mae Strategaeth Byw'n Dda y Cyngor yn darparu fframwaith eglur sy'n cydnabod atal fel continwwm hirdymor ac fel dogfen "pwynt mewn amser", mae ymrwymiad i sicrhau bod y bwriad strategol hwn yn parhau i ddatblygu, gan adlewyrchu dysg sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediad cymunedol. Mae hyn yn gyson â chanfyddiad y Panel sef fod y strategaeth wedi'i llywio gan dystiolaeth, ei ffurfio gan ffactorau amgylcheddol a diwylliannol a'i chefnogi gan bartneriaethau rhanbarthol cryf.

8.2.2 Mae atal wedi'i gynnwys yn gadarn yn ethos sefydliadol y Cyngor a chaiff ei weld yn fewnol fel rhywbeth sy'n rhoi "cyfreithlondeb a phŵer" i ganolbwynt Cyngor cyfan ar ymyrraeth gynnar. Caiff hyn ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu traws-gyfarwyddiaethol newydd ond cadarn, sy'n dangos ymrwymiad sefydliadol cryf i ddulliau darparu ar draws y system. Bydd canolbwynt y Cyngor ar boblogaethau wedi'u targedu, wedi'i ategu gan ddull sy'n cael ei sbarduno fwy gan ddata, yn adeiladu ar asesiadau anghenion a rennir ar draws partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a'r ôl-troed rhanbarthol ehangach. Mae hyn yn darparu platfform cryf ar gyfer datblygiad pellach.

8.2.3 Mae cyfle sylweddol yn ymwneud â'r capasiti ymchwil a gwybodaeth ehangach sydd ar gael trwy bartneriaid strategol. Clywodd y Panel yn gyson fod partneriaid - ar draws iechyd y cyhoedd, awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac eraill - yn "barod a bodlon" i gefnogi Sir Fynwy gydag ymchwil, capasiti gwerthuso a mewnwelediad. Mae cryfder perthnasoedd ar draws y rhanbarth yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i gynyddu'r gefnogaeth hon yn fwy systemig, gan ategu ei gryfderau dadansoddol mewnol sy'n dod i'r amlwg.

**Gwytnwch cymunedol ac atal sylfaenol**

8.2.4 Byddai dull y Cyngor o atal yn cael ei gryfhau ymhellach trwy sicrhau bod gwaith gwytnwch cymunedol yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag ymyriadau wedi'u targedu ar lefel y boblogaeth. Mae'n bwysig cydnabod nad yw poblogaethau yn homogenaidd, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall nodweddion gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys oedran a rhyw, a'i fod yn targedu ei waith atal wrth roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau hyn. Er bod y strategaeth Byw'n Dda bresennol yn cydnabod rôl gwytnwch cymunedol, mae'r Panel o'r farn bod rhaid i'r sefydliad cyfan ei chydnabod fel haen sylfaenol o atal sylfaenol. Mae hyn yn golygu egluro'n gliriach beth mae gwytnwch cymunedol yn ei olygu yng nghyd-destun Sir Fynwy a datblygu gwaelodlin a rennir i alluogi cynnydd i gael ei ddeall dros amser - mae absenoldeb hyn yn gyfyngiad ar hyn o bryd. Gall ymchwil cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg gynorthwyo, ond bydd angen i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ar y cyd â chymunedau a budd-ddeiliaid lleol i sicrhau dilysrwydd a pherthnasedd.

**Ymgysylltiad, cyd-gynhyrchu a chyfalaf cymdeithasol**

8.2.5 Fe wnaeth budd-ddeiliaid - gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol a phreswylwyr - fynegi parodrwydd cryf i gymryd mwy o ran mewn atal, ac mae'r Cyngor eisoes yn elwa o gyfalaf cymdeithasol sylweddol ar draws ei gymunedau. Fodd bynnag, amlygodd adborth brofiadau cymysg o ran ymgysylltiad hefyd, gyda rhai grwpiau yn ei chael yn anodd deall sut i gyfrannu at waith y Cyngor neu ddylanwadu arno.

Mae'r Panel yn awgrymu y dylai cryfderau partneriaeth Sir Fynwy sydd yn draddodiadol wedi wynebu am allan gael eu sianelu'n bwrpasol i mewn, gan sicrhau mai cyd-gynhyrchu fydd y dull diofyn lle bo'n briodol.

**Cyfleoedd sy'n seiliedig ar le ac ystyriaethau tegwch**

8.2.6 Mae cynlluniau creu lleoedd y Cyngor, a ddatblygwyd trwy gyd-gynhyrchu, yn gryf ac wedi'u cefnogi gan strwythurau darparu clir. Mae cyfle a gydnabyddir i ymestyn dulliau sy'n seiliedig ar leoedd ar draws cymunedau gwledig a threfol, gan sicrhau bod gweithrediad yn alinio ag uchelgeisiau tegwch y Cyngor. Mae llawer o gymunedau yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a bydd yn hanfodol cydbwyso'r rhaglen creu lleoedd â'r ystyriaethau tegwch hyn er mwyn sicrhau bod buddion yn cael eu dosbarthu'n deg ac effeithiol.

8.2.7 Yn olaf, er bod budd-ddeiliaid yn nodi cyfleoedd sylweddol i wneud pethau'n wahanol, mae'r Panel yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod dulliau y bwriedir iddynt greu'r amgylchedd cywir*,* galluogi datblygiad cymunedol "organig" neu fabwysiadu rôl hwyluso yn ddigon pwrpasol i sbarduno newid ystyrlon. O ystyried cyfyngiadau o ran capasiti, mae'n rhaid i'r Cyngor sianelu'r holl ddoniau sydd ar gael - mewnol ac allanol - yn ymyriadau bwriadol, wedi'u blaenoriaethu'n glir, sy'n gallu darparu'r canlyniadau tegwch ac atal mae'n eu ceisio.

**8.3 Maes Canolbwynt lleol 3 - Pa mor dda mae'r Cyngor yn gallu dangos canlyniadau bwriedig ac effaith sy'n dod i'r amlwg o'i Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol, pa mor dda mae'n eu rhannu â Chynghorwyr, preswylwyr a budd-ddeiliaid eraill, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a busnesau lleol.**

**Fframwaith Canlyniadau, Canolbwynt Hirdymor a Chyfathrebu Bwriad Strategol**

8.3.1 Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu fframwaith mesur cliriach wedi'i fireinio sy'n cryfhau'r aliniad rhwng blaenoriaethau strategol, mesurau canlyniadau allweddol a chyflawni'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae'r mireinio canolbwynt hwn yn bwysig o ystyried yr amrywiaeth o ymrwymiadau yn y Cynllun a'r angen i ganolbwyntio sylw sefydliadol ar yr hyn sydd bwysicaf. Mae tystiolaeth o faes Addysg a Gofal Cymdeithasol yn dangos effaith a chanlyniadau cryf, a chaiff canfyddiadau eu cefnogi gan sylwadau archwilio allanol.

8.3.2 Cryfder allweddol yw canolbwynt hirdymor y Cyngor, a rennir gyda phartneriaid rhanbarthol, sy'n fframio sut y dylai cynnydd ac effaith gael eu deall. Er bod canlyniadau hirdymor wedi'u diffinio'n dda, mae'r Panel yn cydnabod bod tystiolaeth ar gyfer cynnydd tymor byr a thymor canolig yn dal i fod yn fwy heriol. Mae problemau hysbys ar lefel system â rhai metrigau cenedlaethol a rhanbarthol, sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Panel yn annog y Cyngor i ystyried yn ofalus defnyddio mesurau dirprwy a'u cyfyngiadau, ac ategu data perfformiad meintiol gyda thystiolaeth ansoddol, gan gynnwys profiad byw ac astudiaethau achos, i helpu i ddangos "beth os" o ganlyniad i ymyriadau. Dylai hyn ffurfio rhan o ymrwymiad ehangach y Cyngor i arfer ar sail tystiolaeth a pha mor agored yw i ddysgu gan eraill.

**Mynegi bwriad strategol**

8.3.3 Mae'r Panel o'r farn y byddai mynegi bwriad strategol y Cyngor yn gliriach - boed hynny o ran yr economi, y gymuned neu atal - yn cryfhau dealltwriaeth fewnol ac allanol o'r canlyniadau mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni. Cafwyd adborth gan staff i ddweud y gall fod yn anodd gweld y coed gan brennau weithiau. Mae proses ailalinio'r sefydliad yn ddiweddar yn helpu'r Tîm Arwain Strategol i nodi themâu trawsbynciol y gellid eu tynnu at ei

gilydd yn naratif strategol cryfach, ond bydd rhagor o eglurder yn cynorthwyo budd-ddeiliaid a chymunedau i ddeall y rhesymeg a'r effaith a'r canlyniadau y mae'r Cyngor yn ceisio eu darparu.

**Cyfranogiad budd-ddeiliaid a chyd-gynhyrchu wrth ddeall effaith**

8.3.4 Dylai budd-ddeiliaid gan gynnwys cymunedau, busnesau, partneriaid y sector gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned gyfranogi'n gynt ac yn fwy cyson wrth helpu i ffurfio dull y Cyngor o werthuso effaith. Gall eu mewnwelediad gryfhau datblygiad parhaus y fframwaith mesur a helpu i sicrhau bod canlyniadau'n adlewyrchu'r hyn sydd fwyaf pwysig i breswylwyr. Mae'r Panel yn amlygu pwysigrwydd cyd-gynhyrchu fel egwyddor a'r angen i wneud defnydd llawn o'r cyfalaf cymdeithasol sylweddol sy'n bodoli ar draws y sir. Bydd sicrhau eglurder ar uchelgeisiau a rennir gyda phartneriaid allweddol yn cefnogi uchelgeisiau ataliol y Cyngor a'i waith ehangach o ran gwytnwch cymunedol.

**Cofnodi hanes cynnydd**

8.3.5 Er bod adrodd straeon pwrpasol yn cael eu cydnabod yn y Cyngor mae ei ddefnydd yn dal i fod yn anghyson ac mae arfer cryfach yn fwy amlwg mewn meysydd fel gofal cymdeithasol. Mae'r Panel yn annog y Cyngor i gynnwys dull mwy systematig ar draws y sefydliad o gofnodi'r daith tuag at ganlyniadau hirdymor. Dylai hyn gynyddu'r defnydd o brofiad byw, astudiaethau achos a thystiolaeth ansoddol, gan alinio adrodd straeon yn rhaglen newid y Cyngor, blaenoriaethau strategol a'r hyn sy'n bwysig i breswylwyr a budd-ddeiliaid. Bydd cryfhau'r dull hwn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod y Cyngor ar y llwybr cywir a galluogi dulliau mwy cymhellol o rannu cynnydd ac effaith.

**Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Eirioli**

8.3.6 Dangosodd ymateb y Cyngor i Storm Claudia arfer rhagorol o ran cyfathrebu mewn argyfwng, trwy negeseuon clir, amserol a rhagweithiol i'r cyhoedd. Roedd y cydlynu rhwng arweinyddiaeth wleidyddol, timau gweithredol a staff cyfathrebu yn galluogi preswylwyr i gael diweddariadau cywir yn gyflym, a dangosodd y sefydliad gapasiti cryf ar gyfer dysgu sefydliadol cyflym yn ystod y digwyddiad ac wedyn. Llwyddodd un sylw i grynhoi'r dull hwn trwy ddisgrifio arddull y Cyngor fel *"sgwrsio nid siarad,"* a oedd yn adlewyrchu dull cyfathrebu sgyrsiol, hygyrch a llawn ffydd.

## 9 Gofynion perfformiad strategol a ystyriwyd gan y Panel

Mae'r adran ganlynol yn edrych ar y tri maes perfformiad statudol sy'n ffurfio craidd dyletswydd y Panel dan y ddeddfwriaeth. Ar gyfer pob maes, mae'r Panel yn nodi ei ganfyddiadau, arsylwadau a mewnwelediadau, gan gynnig asesiad ar sail tystiolaeth o pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

### 9.1 Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.

**Arweinyddiaeth, Cynllunio a Gweledigaeth Strategol**

9.1.1 Mae'r Cyngor yn dangos uchelgais cryf gyda'r gallu i fod yn "wych", sy'n farn a gaiff ei hatgyfnerthu gan reoleiddwyr allanol. Mae cynllunio corfforaethol ac ar lefel gwasanaeth yn adlewyrchu fframweithiau cenedlaethol allweddol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymrwymiadau Sero Net 2030 Llywodraeth Cymru, wedi'u cefnogi gan Gynllun Datblygu Lleol (Newydd) a thîm arweinyddiaeth cydlynol, a gaiff ei arwain gan werthoedd, sy'n blaenoriaethu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd berthynas weithio effeithiol a gonest, gan feithrin diwylliant o gydweithio a darpariaeth ar draws y Tîm Arwain Strategol.

**Y Berthynas Rhwng Aelodau a Swyddogion a Mewnwelediadau Allanol**

9.1.2 Disgrifir perthnasoedd rhwng Aelodau Etholedig a swyddogion fel rhai effeithiol. Mae'r Aelodau'n dod o gefndiroedd amrywiol ac wedi addasu'n dda i'w rolau. Mae teimlad o "deulu" yn y sefydliad a chaiff teithiau unigolion eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mynegodd busnesau awydd am ymgysylltiad gwell a chodwyd pryderon am y broses gynllunio leol. Dywedwyd ei bod yn rhwystr i dwf economaidd oherwydd problemau o ran cyfathrebu, amseroldeb a gofal cwsmer yn ystod rhyngweithio sy'n ymwneud â chynllunio.

**Rheoli Perfformiad, Gweithlu a Chyfathrebu**

9.1.3 Mae gan y Cyngor systemau cadarn ar gyfer rheoli a monitro perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys dangosfyrddau, dadansoddi tueddiadau a sgoriau COG sydd ar gael i staff ac Aelodau. Fodd bynnag, mae Mesuryddion Perfformiad sy'n ymwneud â chanlyniadau ac effaith yn llai aeddfed ac nid yw staff ac Aelodau'n deall yn gyson sut i ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael am berfformiad yn effeithiol.

9.1.4 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyfathrebu ac ymgysylltu â staff, sy'n cyfrannu at forâl cryf gan staff - *"Mae staff wrth eu boddau'n gweithio yma!"* a pherthnasoedd adeiladol gydag undebau llafur. Mae Strategaeth Pobl ar waith ond mae cwblhau'r cynllun gweithlu yn ofyniad heb ei gyflawni.

9.1.5 Mae cydnabyddiaeth o'r angen i wella defnyddio prosesau adrodd straeon a dulliau amlgyfrwng i rannu canlyniadau'n fwy clir â phob cymuned, yn enwedig pobl ifanc, gan adeiladu ar symudiadau cadarnhaol presennol o ran arfer cyfathrebu ac ymgysylltu. Roedd nifer o grwpiau ffocws yn amlygu'r angen am gylch adborth cliriach hefyd, gan ddweud er bod cyfathrebu gyda'r Cyngor yn rhywbeth rheolaidd ac adeiladol, nid yw bob amser yn amlwg pa gamau a gymerir i ymateb.

**Partneriaethau Strategol**

9.1.6 Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wedi'u cynnwys yn niwylliant sefydliadol Cyngor Sir Fynwy ac fe'u disgrifir fel rhan o "DNA" y Cyngor. Mae gweinyddiaethau olynol wedi rhoi gwerth cyson ar bartneriaethau strategol cryf, a'u datblygu, er budd cymunedau Sir Fynwy. Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cael eu parchu am gyflwyno cywirdeb deallus, her adeiladol a rôl eiriolaeth gref ar draws fforymau rhanbarthol.

9.1.7 Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gydag awdurdodau cyfagos ac mae'n chwarae rolau arweiniol mewn partneriaethau allweddol fel Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru a Phartneriaeth y Gororau Ymlaen. Mae'r olaf o'r rhain yn canolbwyntio ar gysylltedd trawsffiniol, bwyd a'r economi wledig. Mae partneriaethau wedi'u hadeiladu ar werthoedd a rennir, ac mae Sir Fynwy yn cael ei gweld fel partner y mae eraill am weithio gyda nhw. Er mai ethos y Cyngor fu "*cynnig mwy na'r hyn yr ydym yn ei ofyn*", mae'r Panel yn amlygu mai nawr yw'r amser i adeiladu ar y buddsoddiad hwn a dechrau gwireddu enillion go iawn, gyda chefnogaeth gan arweinyddiaeth sensitif a gwerthfawr.

**Enw Da, Hygrededd a Momentwm**

9.1.8 Mae partneriaid yn gweld Sir Fynwy fel sefydliad credadwy, creadigol, arloesol, hyblyg a phragmatig o ran y ffordd y mae'n ymgysylltu â threfniadau cydweithio. Mae dealltwriaeth gref rhwng y Cyngor a'i bartneriaid o ran yr heriau y mae pob un yn eu hwynebu, ynghyd â pharch at ddull cydweithredol Sir Fynwy.

9.1.9 Mae'r Cyngor ar bwynt lle mae'n rhaid cyflwyno mwy o gyflymder a chanolbwynt o ran gweithgarwch partneriaeth er mwyn sicrhau bod y sylfeini cryf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn darparu mwy o fuddion, effaith a chanlyniadau mesuradwy i gymunedau. Bydd gwneud hyn yn golygu bod angen digon o gapasiti a chanolbwynt sefydliadol parhaus er mwyn troi partneriaethau uchel eu parch yn werth ymarferol uwch i breswylwyr Sir Fynwy.

## 9.2 Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

### Cyd-destun Ariannol, Sefydlogrwydd a Stiwardiaeth

9.2.1 Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu yn yr un cyd-destun ariannol heriol a wynebir gan lywodraeth leol yn genedlaethol, ond mae wedi ymateb gyda Strategaeth Ariannol Tymor Canolig glir, ymgysylltu cryf ar draws y sefydliad, a dealltwriaeth a rennir o bwysau a chyfleoedd. Mae gan y Cyngor hanes o ddarparu arbedion effeithlonrwydd, sefydlogi cronfeydd wrth gefn a chryfhau disgyblaeth ariannol, gan gynnwys cynlluniau adfer â chanolbwynt ar gyfer diffygion ysgolion. Mae uwch swyddogion, gan gynnwys y Swyddog Adran 151 ac Arweinwyr Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi, yn dangos dealltwriaeth gref o feysydd sy'n peri pryder ariannol.

### Llywodraethu, Goruchwylio a Gwneud Penderfyniadau ar sail Data

9.2.2 Mae'r Cyngor yn elwa o oruchwyliaeth gadarn gan bwyllgorau, yn enwedig trwy'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n darparu her adeiladol. Mae dull sefydledig o wireddu buddion ac asesiadau elw ar fuddsoddiad, sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau mwy llym. Mae'r sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd data a gwybodaeth ac mae'n datblygu ei waith i fesur gwariant ataliol. Mae datblygu'r gyllideb yn cael ei drin fwyfwy fel proses barhaus, gan wella aliniad strategol ac ymatebolrwydd sefydliadol.

### Galluogi Digidol a Rheoli Newid:

9.2.3 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei fap a strategaeth ddigidol, gan ddefnyddio trawsnewid digidol fel galluogwr allweddol ar gyfer arloesedd a gwell darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen aliniad cryf rhwng gwaith digidol a'r rhaglen newid ehangach, gan sicrhau gwerthusiad cyson, rheoli prosiectau'n effeithiol a chapasiti a gallu digonol i ddarparu newid sefydliadol ar y raddfa ofynnol.

### Uchelgais, Cyfle a Gallu Sefydliadol

9.2.4 Mae Sir Fynwy yn uchelgeisiol am fanteisio ar gyfleoedd i ddarparu canlyniadau gwell am gost is, gan dynnu ar arfer gorau allanol ac adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn lleol eisoes. Mae gan uwch swyddogion ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u pwysau gweithredol ac ariannol, sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn. Mae hyn yn adlewyrchu hyder sefydliadol ehangach o ran ei allu i nodi a gweithredu ar gyfleoedd am welliant.

### At Bwrpas Ar Bwrpas (F-POP) fel Fframwaith Sefydliadol ar gyfer Gwelliant

9.2.5 Mae dull F-POP y Cyngor yn darparu sylfaen gref ar gyfer nodi cyfleoedd am welliant a sefydlu'r amodau gofynnol i'w gwireddu. Mae'r fframwaith yn grymuso arweinwyr a thimau i:

- Nodi a chwmpasu cyfleoedd
- Meithrin a defnyddio'r perthnasoedd mewnol ac allanol cywir
- Gweithio mewn Swyddfa Monitro Prosiect cyffyrddiad ysgafn, cymesur, gan osgoi ailadrodd.

- Tynnu ar wasanaethau galluogi fel y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir, Ystadau ac AD

9.2.5.1 Mae hyn yn creu diwylliant cadarnhaol ar draws y sefydliad sy'n cefnogi cydweithio, perchnogaeth newid a darpariaeth effeithiol. Unwaith eto, mae uwch swyddogion yn dangos dealltwriaeth gref o feysydd risg allweddol, gan gynnwys cyllid ac addysg.

Fframwaith Cyfleoedd a Risgiau

9.2.5.2 Mae'r Cyngor yn maethu diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi gweithio ar draws y sefydliad, meithrin consensws ac osgoi "theatr trawsnewid" diangen. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniad bwriedig ar gyfer darparu cyfleoedd mawr yn glir, ac nid yw'r broses ar gyfer penderfynu ar hyn wedi'i diffinio'n ddigonol, sy'n creu risgiau o ganlyniadau is-optimaidd.

Cyfle, Amser a Chapasiti

9.2.5.3 Mae'r Panel yn atgyfnerthu'r neges fod gan y Cyngor ddigon o gyfleoedd i wella canlyniadau ac effeithlonrwydd, ond y bydd angen amser, canolbwynt sefydliadol a rhagor o gapasiti er mwyn gwireddu'r cyfleoedd hyn. Mae angen atgyfnerthu'r thema fod angen mwy o fwriad a chyflymder er mwyn darparu newid.

Graddfa Cyfle

9.2.5.4 Nododd y Panel, er bod potensial sylweddol ar gyfer gwelliant sefydliadol, mai enghreifftiol yw unrhyw amcangyfrifon cynnar o raddfa ar hyn o bryd. Bydd angen asesiad mwy manwl ar sail tystiolaeth er mwyn pennu'r buddion realistig y gellir eu cyflawni.
Mae'n rhaid i'r Cyngor fesur, blaenoriaethu a chynllunio'r cyfleoedd yn drylwyr er mwyn datgloi eu gwerth.

Mireinio Amcangyfrifon Cyfleoedd

9.2.5.5 Er mwyn gwireddu'r potensial ar gyfer cyfleoedd sylweddol, bydd angen dulliau strwythuredig ar y Cyngor i droi amcangyfrifon eang, lefel uchel yn rhaglenni y gellir eu cyflawni, wedi'u cefnogi gan amcanestyniadau ar sail tystiolaeth o fuddion ariannol a chanlyniadau.

Cyfleoedd yn yr Arfaeth a Chamau Darparu

9.2.5.6 Er bod modd i'r llwybr o'r syniad i ddarparu amrywio, fel arfer mae'n cynnwys cynnydd trwy ddarganfod, blaenoriaethu a dylunio. Bydd integreiddio datblygu achosion a dadansoddiad o elw ar fuddsoddiad yn y daith hon yn sicrhau bod gweithrediad wedi'i gefnogi gan resymeg strategol gadarn.

9.2.5.7 Mae'r camau hyn yn amlygu'r angen am ddull disgybledig, strwythuredig ar gyfer gwireddu cyfleoedd ar raddfa. Mae'r holl swyddogion atebol yn meddu ar ddealltwriaeth gref o risgiau allweddol.

Amserlenni ac Uchelgais

9.2.5.8 Mae amserlenni dangosol a ddangoswyd i'r Cyngor yn ystod y cyflwyniad adborth yn tanlinellu bod y trawsnewid gofynnol yn ymrwymiad hirdymor a bydd y buddion llawn yn debygol o ddod i'r amlwg tua 2029/30. Fodd bynnag, mae'r Panel yn pwysleisio bod cynnydd ystyrlon yn dibynnu ar y Cyngor yn rhoi'r sylfeini angenrheidiol ar waith nawr. Bydd mesurau cynnar a gyflwynir yn ystod 2026/27 yn hanfodol wrth ddechrau'r broses newid a rhoi'r sefydliad mewn sefyllfa i gynnal momentwm. Mae'r amserlenni hyn yn atgyfnerthu graddfa'r uchelgais a lefel yr ymrwymiad sefydliadol sydd eu hangen i ddarparu trawsnewid dros nifer o flynyddoedd.

Pwyslais Parhaus ar Ddarpariaeth Hirdymor

9.2.5.9 Mae'r Panel yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal canolbwynt hirdymor wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Er mwyn cyflawni graddfa'r newid a nodwyd, bydd angen ymrwymiad sefydliadol parhaus, dilyniant clir a chadw golwg barhaus ar y gorwel er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal i fod yn barod ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Alinio Uchelgais gyda Realiti Sefydliadol

9.2.5.10 Mae darparu newid hirdymor ystyrlon yn gofyn am eglurder am y canlyniad a ddymunir, cyflymder realistig ac asesiad gonest o gapasiti sefydliadol. Heb gyrchfan wedi'i diffinio'n glir a'r amodau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant, mae'n bosibl na fydd cyfleoedd yn troi'n welliannau cynaliadwy.

Cwestiynau Allweddol ar gyfer Newid

9.2.5.11 Er mwyn cefnogi trawsnewid hirdymor effeithiol, bydd y Cyngor yn elwa o edrych ar themâu allweddol pwrpas, darpariaeth ac effaith. Mae hyn yn cynnwys ystyried y rhesymeg dros newid, yr amodau sy'n ofynnol ar gyfer llwyddiant, ac yn hanfodol, pa fath o ddyfodol fydd i breswylwyr a staff.

9.2.5.12 Mae'r cwestiynau hyn yn amlygu'r angen am naratif trefnus, egwyddorion dylunio clir a fframweithiau gwerthuso cadarn i gefnogi trawsnewid system cyfan.

## 9.3 Y graddau mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y Cyngor

### Llywodraethu Effeithiol a Datblygu Aelodau

9.3.1 Rhoddwyd sicrwydd i'r Panel fod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, fel a ddangosir trwy adroddiadau rheoleiddio a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac a gadarnhawyd yn ystod y cyfweliadau ar y safle. Mae'r Panel hefyd yn credu bod cwmpas o hyd i gryfhau agweddau o'r fframwaith presennol ymhellach, ac mae'r meysydd hyn ar gyfer gwelliant wedi'u nodi yn yr adrannau sy'n dilyn, gan adlewyrchu cyfleoedd i adeiladu ar sylfaen gref a gwella effeithiolrwydd llywodraethu cyffredinol y Cyngor.

### Cryfderau o ran Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

9.3.2 Mae Cyngor Sir Fynwy yn dangos arweinyddiaeth gref ac effeithiol, gyda dealltwriaeth glir o rolau aelodau a swyddogion a diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd ar draws y sefydliad. Disgrifir aelodau fel rhai sydd wedi cysylltu'n dda â'u cymunedau, sy'n ymatebol ac sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu mewnwelediad, ac mae Cadeiryddion Craffu ac aelodau anweithredol yn dangos ymrwymiad cryf ac angerdd dros gyfrannu at waith y Cyngor. Mae Pwyllgorau yn gynhwysol ac yn cael eu cadeirio'n dda, gan gefnogi llywodraethu democrataidd adeiladol.

### Trefniadau Craffu

9.3.3 Mae rhaglenni gwaith craffu ar waith ac mae defnydd da o'r broses graffu cyn gwneud penderfyniadau, gan helpu i gryfhau prosesau gwneud penderfyniadau deallus. Fodd bynnag, mae aelodau'n dweud nad yw barn craffu yn cael ei gwerthfawrogi'n ddigonol bob amser, gydag ychydig o adborth ar ôl i adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Cabinet. Gall amseroldeb cynllun gwaith y Cabinet lesteirio effeithiolrwydd craffu hefyd. Mae diffyg eglurder o ran sut gall aelodau ddefnyddio dulliau manwl mewn methodoleg tasg a gorffen, gan awgrymu bod angen rhagor o gefnogaeth a fframweithiau cliriach.

**Effeithiolrwydd Cyngor Llawn a Defnyddio Amser**

9.3.4 Disgrifir cyfarfodydd y Cyngor Llawn fel rhai llawn gwybodaeth sy'n cynnwys trafodaethau cadarn, gan adlewyrchu ymgysylltiad democrataidd gweithredol. Fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd yn anarferol o hir. Dylid ystyried a yw'r cyfansoddiad yn galluogi Cynghorwyr i ganolbwyntio eu hamser ar y materion mwyaf strategol. Dylid adolygu strwythur cyfarfodydd er mwyn defnyddio'r amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad sydd gael Aelodau i'w cynnig yn well.

**Adnoddau Datblygiad, Hyfforddiant a Chefnogaeth Aelodau**

9.3.5 Mae Rhaglen Hyfforddiant Aelodau gynhwysfawr ar waith, gan gynnwys proses sefydlu gref ar gyfer Aelodau newydd a gwelliannau parhaus dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae e-ddysgu yn gwella hyblygrwydd a hygyrchedd. Fodd bynnag, nid oes Cynlluniau Datblygu Personol unigol ar waith eto, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad wedi'i deilwra. Mae system "Fy Sir Fynwy" yn darparu platfform ar gyfer rheoli gwaith achos, ond mae Aelodau'n sôn am gyfyngiadau o ran defnyddioldeb sy'n effeithio ar ddefnydd ac yn achosi rhwystredigaeth.

## 10 Cyfleoedd i Wella – Argymhellion

10.1 Rydym wedi ystyried y tri maes perfformiad gofynnol yn ofalus, yn ogystal â'r tri maes ychwanegol a nodwyd gan y Cyngor i'w hystyried yn lleol fel rhan o'r broses asesu. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o arsylwadau a sylwadau am berfformiad y Cyngor ym mhob un o'r meysydd hyn. Dylid eu hystyried ynghyd â'r crynodeb o argymhellion a nodir yn y tabl isod.

### 10.2 Tabl 1 - Crynodeb o argymhellion.

<table>
<tr><td>1</td><td>Blaenoriaethu cyfleoedd mawr i ddarparu canlyniadau gwell i breswylwyr am gostau is.<br>Mae'r panel yn argymell bod y Cyngor yn canolbwyntio a blaenoriaethu cyfleoedd mawr a fydd yn darparu canlyniadau gwell i breswylwyr am gost is. Mae'n rhaid i'r Cyngor sefydlu system glir i nodi, asesu a defnyddio'r cyfleoedd hyn, gyda chefnogaeth cynllun strwythuredig i'w gwblhau erbyn diwedd 2026/27.<br><br>Dylai'r cynllun gynnwys:<br>• Asesiad cadarn o'r buddsoddiad gofynnol;<br>• Ystyriaeth o gapasiti sefydliadol i ddarparu;<br>• Canlyniadau disgwyliedig, gan gynnwys arbedion ariannol a chanlyniadau gwell;<br>• Aliniad â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br><br>Mae gwireddu'r cyfleoedd hyn yn gofyn am ddisgyblaeth, dilyniant a naratif sefydliadol cryf sy'n cysylltu newid â chanlyniadau a gwytnwch ariannol.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cryfhau Gwytnwch Cymunedol a Dealltwriaeth a Rennir.<br>Mae'r Panel yn argymell bod y Cyngor yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o "wytnwch cymunedol" yng nghyd-</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | destun Sir Fynwy. Bydd y diffiniad hwn a rennir yn galluogi dulliau gwell o fesur effaith a bydd yn helpu i egluro'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ceisio ei wneud.<br>Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:<br>• Defnyddio mewnwelediad cymunedol i ddeall effaith a chanlyniadau lles;<br>• Sicrhau bod cynlluniau atal yn cynyddu cyfalaf cymdeithasol, sef rhywbeth wnaeth budd-ddeiliaid ei nodi fel cryfder mawr;<br>• Cryfhau cyfathrebu ac ymgysylltiad pwrpasol â chymunedau, gan dynnu ar y model creu lleoedd;<br>• Sicrhau bod pob cymuned - yn enwedig mewn sir fawr yn ddaearyddol - yn cael llais wrth ffurfio blaenoriaethau lleol.<br><br>Sicrhau bod budd-ddeiliaid yn barod a bodlon i weithio gyda'r Cyngor a bod cyd-ddylunio yn hanfodol ar gyfer cynnydd ystyrlon. |
| **3** | **Cynllunio'r Gweithlu ac Olyniaeth**<br>Mae'r Panel yn awgrymu bod y Cyngor yn cwblhau proses datblygu a gweithredu ei gynllun gweithlu ac olyniaeth er mwyn ategu darpariaeth a gwytnwch sefydliadol yn y dyfodol.<br><br>Mae'r pwyslais ar:<br>• Sicrhau bod gan y Cyngor y sgiliau a'r gallu gofynnol ar gyfer heriau'r dyfodol;<br>• Mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y gweithlu;<br>• Cefnogi datblygiad arweinyddiaeth a chadw gwybodaeth gritigol;<br>• Cryfhau capasiti sefydliadol i wireddu ei flaenoriaethau.<br><br>Mae cynllunio'r gweithlu yn hanfodol i gynnal gwelliant, lleihau mannau methiant a chefnogi arloesedd. |

10.3 Gyda'i gilydd, mae'r argymhellion hyn yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cryfhau perfformiad a llywodraethu ac yn darparu sylfaen ar gyfer taith barhaus y Cyngor at welliant.

## 11 Cefnogaeth i Wella

Os hoffech chi drafod unrhyw gefnogaeth arall i wella, cysylltwch â Jo Hendy, Prif Swyddog Gwelliant CLlLC.

## 12 Cydnabyddiaeth

Dymuna'r Panel a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiolch i'r Cyngor am ei ymgysylltiad drwy gydol yr Asesiad Perfformiad Panel ac yn benodol hoffem ddiolch yn arbennig i'r Arweinydd, y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby a'r Prif Weithredwr, Paul Matthews am eu cefnogaeth ac am fod yn agored. Hoffem ddiolch hefyd i Matthew Gatehouse - Prif Swyddog - Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, Carly Rogers, Hannah Carter a Richard Jones am eu cefnogaeth amhrisiadwy wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymateb i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cymorth ar y safle.